# CYNHADLEDD 2024

## Cartrefi Gwell ar gyfer Dyfodol Iachach

Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# Rhaglen y Gynhadledd










WALES&WEST
UTILITIES

#CRConf24

# CYNHADLEDD 2024

**08.45** — **Cofrestru, Rhwydweithio ac Arddangosfa**

**09.30** — **Croeso: Gwynne Jones, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**

**09.35** — **Neges gan ein Noddwr ein Cynhadledd**
Elizabeth Warwick, Wales & West Utilities

**09.45** — **Prif Araith**
Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd Cabinet Tai, Llywodraeth Leol a Chynllunio

**10.00** — **Blwyddyn o Effaith: Dathlu Ein Llwyddiannau**

**10.20** — **Trafodaeth Panel: Tai ac Iechyd ar Waith**

- Hayley Floyd, Pennaeth Gofal Brys yn Llywodraeth Cymru
- Faye Patton, Rheolwr Polisi yn Care & Repair Cymru
- Chiquita Cusens, Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol Gofal Sylfaenol a Chymunedo Cymru

**11.00** — **EGWYL** Te, coffi a gweld yr arddangosfa

**11.30** — **Gweithdai**

- Profiadau o'r Rheng Flaen: Ymchwilio Heriau a Datrysiadau
- Sut y gall Data Drawsnewid y Gwaith a Wnawn
- Wales & West Utilities: Cyrraedd a Chefnogi Cwsmeriaid Bregus
- Rhaglen Newydd Cartrefi Cynnes

**12.45** — **CINIO** Egwyl am fwyd a gweld yr arddangosfa

**13.30** — **Gofalu am ein llesiant**
Jayne Ellis, Rheolwr Gyfarwyddwr EF Training

**14.30** — **EGWYL** Te, coffi a gweld yr arddangosfa

**14.45** — **Gweithdai**

- Profiadau o'r Rheng Flaen: Ymchwilio Heriau a Datrysiadau
- Sut y gall Data Drawsnewid y Gwaith a Wnawn
- Yr Hawl i Gartref Gweddus – Mae'r Daith yn Parhau
- Cyflwyno Hynach nid Oerach

**16.00** — **Y Negeseuon Allweddol a Sylwadau Cloi**

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2024

## Gweithdai

### Profiadau o'r Rheng Flaen: Ymchwilio Heriau a Datrysiadau — 11.30 & 14.45

- **Neil Williams, Care & Repair Cymru, Pennaeth Cymorth a Datblygu Asiantaethau**
- **Layla Thomas, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr, Gweithiwr Achos Dementia yn Gyntaf**
- **Alison Sian Jones, Gofal a Thrwsio Powys, Gweinyddydd Mân Addasiadau**
- **Stuart Pitt, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen, Swyddog Technegol**

Tu ôl i lwyddiannau sylweddol Gofal a Thrwsio a'r miloedd o gleientiaid y mae'n eu helpu drwy wella cartrefi a newid bywydau mae realaeth darparu safon o'r radd uchaf un. P'un ai wrth y porth gweinyddol i'r gwasanaeth lle mae disgwyliadau yn enfawr, neu wrth galon y gwasanaeth yng nghartrefi cleientiaid hŷn, lle mae Gweithwyr Achos a Swyddogion Technegol yn gweithredu o fewn sefyllfaoedd heb eu cynllunio a phwysau cudd, mae llawer yn y fantol. Mae gwasanaethau Gofal a Thrwsio sy'n canolbwyntio ar unigolyn ac a arweinir gan y broblem yn cyflawni cymaint gyda chostau cynyddol uchel a llai o adnoddau. Dewch i ganfod sut mae'n ymateb i'r her ac yn gwneud i'r hud ddigwydd.

### Sut y gall Data Drawsnewid y Gwaith a Wnawn — 11.30 & 14.45

- **Rob Green, Care & Repair Cymru, Rheolwr Prosiect Cronfa Ddata**
- **Richard Thomas, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro, Prif Swyddog**

Mae'r gweithdy hwn yn ymchwilio sut gall asiantaethau Gofal a Thrwsio ddefnyddio data yn effeithiol i wella gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ar draws Cymru. Mae'n dangos sut y gellir defnyddio data i roi blaenoriaeth i achosion brys, gwella dyrannu adnoddau a theilwra gwasanaethau i anghenion cleientiaid unigol. Drwy ddangos ymyriadau llwyddiannus a gaiff eu gyrru gan ddata ac ymdrechion rhannu data ar y cyd, bydd y gweithdy yn dangos effaith ddiriaethol gostwng risgiau iechyd yn gysylltiedig â thai gwael. Gan ddefnyddio gwybodaeth o adroddiad Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru, mae'n tanlinellu rôl ganolog data wrth lunio strategaethau gofal y dyfodol. Dangosir arferion rhagorol Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro, yn arbennig wrth ddefnyddio Power B1 ar gyfer uwch ddadansoddi data, gan ddangos sut gall data fod yn sbardun i wneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau canlyniadau gwell.

#CRConf24

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2024

## Gweithdai

### Wales & West Utilities: Cyrraedd a Chefnogi Cwsmeriaid Bregus — 11.30

- **Elizabeth Warwick, Wales & West Utilities, Rheolwr Ymgysylltu a Dirnadaeth**
- **Lucy James, EQ Communications, Rheolwr Gyfarwyddwr**

Ydych chi'n gweld o lygad y ffynnon yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn a fregus? Mae Wales & West Utilities (WWU) yn adolygu ei strategaethau ar fregusrwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac eisiau deall mwy am heriau bregusrwydd yng Nghymru. Ymunwch â'r gweithdy hwn i roi eich sylwadau a'ch safbwyntiau, fydd hefyd wedyn yn helpu mireinio a gwella gwasanaethau cymorth cwsmeriaid WWU, a helpu i ddatgelu lle gall ychwanegu dros ac uwchben gwerth.

### Rhaglen Newydd Cartrefi Cynnes — 11.30

- **Ben Saltmarsh, NEA Cymru, Pennaeth Cymru**
- **Dylan Mclellan, Nyth, Rheolwr Datblygu Partneriaethau**
- **Joanna Seymour, Cymru Gynnes, Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu**

Bydd y gweithdy hwn yn eich hysbysu am drefniadau ymarferol rhaglen newydd Cartrefi Cynnes ar gyfer atgyfeiriadau a'r profiadau hyd yma gan Dîm Nyth EST a Cymru Gynnes. Bydd hefyd gyfle am drafodaeth a chwestiynau, fel y gallwch hefyd rannu eich profiadau o raglen newydd Cartrefi Cynnes. Bydd y sesiwn hefyd yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau a newyddion ar dlodi tanwydd cyn y gaeaf, yn cynnwys nifer y bobl mewn tlodi tanwydd, cyhoeddiad diweddar am Daliad Tanwydd y Gaeaf, mesuryddion blaendalu, prisiau ynni a diweddariadau gan y Gynghrair Tlodi Tanwydd.

#CRConf24

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2024

## Gweithdai

### Yr Hawl i Gartref Gweddus – Mae'r Daith yn Parhau — 14.45

- **Chris Jones, Care & Repair Cymru, Prif Weithredwr**
- **James Hooker, Llywodraeth Cymru, Pennaeth y Sector Rhent Preifat**
- **Alicja Zalesinska, Tai Pawb, Prif Weithredwr**

Bydd y sesiwn yn diweddaru cynrychiolwyr ar gynnydd yr Hawl i Gartref Digonol ac yn gyfle i holi siaradwyr am sut y gallai gefnogi gwella cyflwr tai cleientiaid Gofal a Thrwsio. Bydd y siaradwyr yn rhoi sylw i hynt yr ymgyrch i gefnogi'r Bil hyd yma a hefyd yn rhoi'r diweddaraf ar gynnydd y Papur Gwyrdd a'r Papur Gwyn. Bydd hefyd yn gyfle i ymchwilio sut y gall yr Hawl i Gartref Digonol roi ystyriaeth gywir i gyflwr eiddo pobl fregus sy'n byw mewn tai anaddas i bobl fyw ynddynt, a sut y gallai rhaglenni eraill gwella tai gefnogi hynny.

### Cyflwyno Hynach nid Oerach — 14.45

- **Becky Ricketts, Care & Repair Cymru, Rheolwr Prosiect Hynach Nid Oerach**
- **Sophie Shorney, Wales & West Utilities, Rheolwr Lwfans Bregusrwydd a Carbon Monocsid**

Lansiodd Care & Repair Cymru ein gwasanaeth tlodi tanwydd blaengar newydd, Hynach Nid Oerach, ar 1 Ebrill eleni. Nod y gwasanaeth, a gaiff ei ariannu'n hael gan Wales & West Utilities, yw cefnogi pobl hŷn sy'n berchnogion eu cartrefi ledled Cymru drwy ostwng tlodi tanwydd a chynyddu diogelwch cartrefi a chleientiaid. Caiff Hynach Nid Oerach ei gyflwyno gan ein tîm o Swyddogion Ynni Cartref sy'n seiliedig yn ein Hasiantaethau.

Bydd y sesiwn yma'n anelu i hysbysu'r rhai sy'n mynychu am gronfa Lwfans Breguswydd a Charbon Monocsid Wales & Utilities, yn ogystal â'r strategaethau, hyfforddiant a gwasanaethau a gaiff eu cynnig a'u gweithredu gan ein Swyddogion Ynni Cartref. Ategir hyn gan y data diweddaraf ar dueddiadau gwasanaeth, data cleientiaid a chyfle cwestiwn ac ateb.

#CRConf24

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2024

## Prif Siaradwyr



### Gwynne Jones

Bu Gwynne yn gweithio ym maes tai cymdeithasol am 33 mlynedd tan fis Gorffennaf 2020. Mae'n falch i fod yn Gadeirydd cyfredol Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych a bu ganddo gysylltiad gyda'r mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru ers 1996. Ar ôl gweithio i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru a Lloegr, roedd ei swydd ddiwethaf fel Rheolwr Gyfarwyddwr Cartrefi Conwy. Mae'n Gymrawd y Sefydliad Tai Siartredig.



### Jayne Bryant AS

Cafodd Jayne Bryant ei geni a'i magu yng Nghasnewydd, a mentrodd i fyd gwleidyddiaeth yn 17 oed, a'i hethol yn Aelod Cynulliad Gorllewin Casnewydd yn 2016. Cafodd ei phenodi yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn y Bumed Senedd, ac roedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Wedi'i hail-ethol yn 2021, enwebwyd Jayne i gadeirio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Chweched Senedd hon, a bu hefyd yn. Is-gadeirydd y Grwpiau Trawsbleidiol ar Dementia a Chefnogaeth Rhyng-genhedlaeth. Ar hyd ei gyrfa ceisiodd Jayne helpu  i eirioli dros a chefnogi pobl ac mae'n angerddol iawn am annog pobl ifanc i fod yn weithgar a chymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Penodwyd Jayne yn Ysgrifennydd Cainet dros Dai, Llywodreaeth Leol a Chynllunio ar 17 Gorffennaf 2024.



### Elizabeth Warwick

Mae Elizabeth yn weithiwr proffesiynol profiadol ym maes ymgysylltu a chyfathrebu a hi yw Rheolwr Ymgysylltu a Dirnadaeth rhwydwaith dosbarthu nwy Wales & West Utilities. Nid yw Wales & West Utilities yn gwerthu nwy; mae'n defnyddio ei rwydwaith helaeth o bibelli i gludo nwy i gartrefi a busnesau ledled Cymru a de orllewin Lloegr. Mae Wales & West Utilities yn dîm o fwy na 1800 o gydweithwyr medrus ac ymroddedig sy'n cadw 7.5 miliwn o gwsmeriaid yn ddiogel a chynnes, gyda chyflenwad nwy dibynadwy i gwsmeriaid ynghyd â lefel o wasanaeth y gallant ymddiried ynddo.



### Jayne Ellis

Mae Jayne wedi gweithio mewn gofal iechyd am dros 30 mlynedd fel nyrs ac addysgydd. Mae wedi cyhoeddi fel awdur ac yn siarad yn gyson mewn cynadleddau a digwyddiadau ym mhob rhan o Brydain. Mae EF Training yn cynnig hyfforddiant ansawdd uchel a seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd ati yn rhagweithiol i drin effaith blinder trugaredd ar sefydliadau ac unigolion. Ar ôl profi blinder trugaredd ei hun mae Jayne yn ymwybodol iawn o'r effaith emosiynol y gall gweithio mewn unrhyw rôl gofalu ei gael. Mae'n ymroddedig i godi ymwybyddiaeth am flinder trugaredd ac yn ymgyrchu dros i iechyd a diogelwch emosiynol gael eu gweld fel bod â statws cyfartal i iechyd a diogelwch corfforol ym mhob sefydliad.

# CYNHADLEDD 2024

## Siaradwyr y Panel Trafod



### Chris Jones

Mae Chris wedi ymwneud â Gofal a Thrwsio ers 34 mlynedd, fel aelod Bwrdd ac mewn swyddi gweithredol, ac fel Prif Weithredwr Care & Repair Cymru ers 2010. Bu'n gweithio I awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru am 21 mlynedd rhwng 1989 a 2010 mewn swyddi darparu gwasanaeth tai, datblygu polisi ac arweinyddiaeth. Mae Chris yn angerddol am Gofal a Thrwsio, a'r weledigaeth o Gymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartref cynnes, diogel a chyfleus. Mae'n benderfynol i barhau i adeiladu ar enw cryf Gofal a Thrwsio fel sefydliad sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol integredig gwell ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.



### Faye Patton

Mae Faye wedi gweithio i Care & Repair Cymru ers 2020. Mae hi yng ngofal allbwn polisi a materion cyhoeddus yr elusen, sy'n cymryd ymagwedd holistig i gysylltu tai, iechyd a thlodi tanwydd i gynrychioli'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn ar incwm isel i gynnal cyflwr eu cartrefi. Mae Faye hefyd yn is-gadeirydd Tasglu Cenedlaethol Cwympiadau yng Nghymru a bu yng ngofal ehangu a chadw gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yr elusen i 17 prif ysbyty ar draws Cymru.



### Hayley Floyd

Yn weithiwr proffesiynol cyfathrebu a pholisi yn Llywodraeth Cymru, mae Hayley wedi gweithio ar draws ystod o feysydd dros y 17 mlynedd diwethaf, gan weithio yn yr Adran IGC am yr wyth mlynedd diwethaf. Yn bennaeth Gofal Brys, Hayley sydd â chyfrifoldeb polisi dros GIG 111 Cymru a gwasanaethau y tu allan i oriau, gan gefnogi Gweinidogion i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i boblogaeth Cymru drwy lens gofal brys, hyrwyddo llwybrau gofal brys cenedlaethol a gofal yn nes at y cartref. Mae Hayley wedi gweithio gyda Care & Repair Cymru ers 2018, ar sefydlu'r gwasanaeth Cartrefi Iachach a sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth.



### Chiquita Cusens

Mae Chiquita Cusens yn Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn gweithio gyda'r Rhaglen Strategol dros Ofal Sylfaenol. Mae ganddi brofiad clinigol a gweithredol helaeth o fewn iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol, gan ddynodi ffyrdd newydd o weithio, datblygu a thrawsnewid gwasanaethau. Mae Chiquita yn angerddol am rôl nyrsys yn arwain a galluogi gofal ar gyfer unigolion i aros adre neu'n agos adre, ar lefel unigol, cymdogaeth a system. Mae swydd Chiquita yn rhoi arweinyddiaeth strategol i nyrsys ac arbenigedd i'r rhaglenni yn ogystal ag i sefydliadau eraill a rhaglenni gwaith yng Nghymru.

#CRConf24

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2024

## Arddangoswyr

### Age Cymru

Age Cymru ydym ni. Ni yw'r elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n falch iawn i fod yn rhan o rwydwaith Age UK. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys Age Cymru,a'r tair elusen genedlaethol, Age UK, Age Scotland ac Age NI a gyda 120 Age UK lleol ar draws Lloegr, pump partner lleol Age Cymru ac Age Orkney. Drwy gydweithio gyda'n partneriaid, mae Age Cymru'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn drwy ddarparu cyngor a gwasanaethau dibynadwy sy'n medru darparu cefnogaeth. Rydyn ni'n ymgyrchu, yn gwneud gwaith ymchwil, ac yn codi arian er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwella bywydau pobl hŷn.

### AKW Medi-Care Ltd

AKW yw prif arweinwyr marchnad Prydain mewn datrysiadau cawod, bywyd beunyddiol a chegin ar gyfer pobl gyda llai o symudedd. Mae dewis, prisio cystadleuol a gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf yn gwneud AKW y dewis cyntaf ar gyfer cleientiaid ar draws Prydain a thu hwnt. Gweithiwn yn agos gyda therapyddion galwedigaethol a gweithwyr gofal iechyd ac yn cynhyrchu ystod lawn o gynnyrch cawod mynediad rhwydd, ceginau a chymorth symudedd. Rydym yn angerddol am alluogi pobl i aros yn eu cartrefi a chadw eu hannibyniaeth. Caiff pob un o'n cynnyrch eu profi'n drwyadl, gyda dyluniad hollol ac a wnaed yn benodol ar gyfer y defnyddiwr.

### Gofalwyr Cymru

Mae Gofalwyr Cymru eisiau i ofalwyr wybod nad ydynt ar ben eu hunain. Rydym yma i wrando, i roi gwybodaeth a chyngor arbenigol, ymgyrchu dros newid sy'n parhau a chanfod ffyrdd newydd i gefnogi gofalwyr gyda'u rôl gofalu. Rydym eisiau gweld byd lle caiff gofalwyr eu cefnogi i ymdopi gyda heriau gofalu am rywun a hefyd i adeiladu eu bywyd eu hunain hefyd. Byd sy'n cynnwys gofalu ond na chaiff ei lethu ganddo, a byd lle gall gofalwyr ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain hefyd.

#CRConf24

# CYNHADLEDD 2024

## Arddangoswyr

**Centre of Sign-Sight-Sound**
Cymorth ar gyfer pobl gyda cholled synhwyraidd, yn bennaf bobl ifanc gyda cholli clyw neu sy'n Fyddar er fod gennym wasanaethau ar gyfer pobl Anabl hefyd. Mae'r gwasanaethau yn amrywio o gymorth i drefnu apwyntiadau iechyd i gymorth i ganfod cyflogaeth.

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu pobl hŷn sy'n berchennog eu cartrefi a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal a chadw eu cartrefi. Caiff ymweliadau cartref eu trefnu i drafod anghenion cleientiaid a dynodi gwaith trwsio, cynnal a chadw neu addasu priodol, gan gynnig datrysiadau, y costau tebygol a ffynonellau posibl o gyllid. Amcanion yr elusen yw'r budd cyhoeddus, lliniaru angen, salwch, anabledd ac iechyd gwael, yn arbennig ond nid yn unig ymysg pobl dros 60 oed ac sy'n byw yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych.

**Closomat**
Credwn fod urddas ac annibyniaeth yn sylfaenol i'n llesiant. Gwnawn ein gorau i wneud bywyd ychydig yn rhwyddach i unrhyw un sydd angen help i ddefnyddio'r toiled.Cyflawnwn hyn drwy fod yn unig gynhyrchydd arbenigol y Deyrnas Unedig o doiledau golchi a sychu ar gyfer y llai abl. Unwaith y maent wedi eu gosod, rydym yn rhoi gwasanaeth, cynnal a chadw ac addasu ein toiledau cyhyd ag y mae eu hangen.

**Easiaccess**
Mae Easiaccess yn gynhyrchydd, cyflenwr a gosodwr blaenllaw ar gyfer rampiau modwlar a stepiau. Cynigiwn wasanaeth cyflenwi a gosod ledled y wlad. Mae gân ein systemau metal ddyluniad y gellir ei addasu'n llawn, gan roi hyblygrwydd i weddu unrhyw adeilad a gofod. Darparwn arolygon a dyfynbrisiau yn rhad ac am ddim, a ddilynir gyda darluniau 2D a 3D gan ein tîm profiadol o siaradwyr gyda gwybodaeth helaeth o'r rheoliadau a'r gofynion diweddaraf fel y gallwch gael tawelwch meddwl y bydd eich datrysiadau mynediad yn addas i'r diben ac yn cyflawni'r holl ofynion cyfreithiol.

#CRConf24

# CYNHADLEDD 2024

## Arddangoswyr

### HSF Health Plan

Mae ein cynlluniau arian yn cynnig ad-daliadau arian ar gyfer ystod cyfan o ofal iechyd a chynnal a thriniaethau, llinell gyngor meddygon teulu, gwasanaeth cwnsela a llinell gyfreithiol yn ogystal â HSF Perkbox.

### Hearing Products International Limited

Mae gan Hearing Products International 32 mlynedd o brofiad mewn darparu technoleg gynorthwyol a helpu i newid bywydau pobl gyda cholli clyw a synhwyraidd, rydym yn darparu gwrandawyr personol, gwrandawyr teledu a phersonol dau-mewn- un, larymau mwg, clociau larwm gydag ysgydwyr gwely, cynyddwyr llais, systemau rhybudd drws ac arwyddion ffôn, synwyryddion sain, dyfeisiau galw ac ysgydwyr gwely i gyd gan fusnes teuluol.

### Key Safe Company

The Key Safe Copmpany yw prif ddarparydd Prydain ar gyfer datrysiadau diogel i gadw allweddi, gan helpu miliynau i rannu mynediad diogel i eiddo ers 1996. Yn ddosbarthydd gyda chymeradwyaeth ISO, buom yn gweithio gydag arbenigwyr ar ddiogelwch i reoleiddio'r diwydiant, gan ddatblygur Safon a Ffafrir gan yr Heddlu. Cafodd ein cynnyrch blaengar Tamo™ ei ardystio gan LPCB fel y sêff allweddi mecanyddol mwyaf diogel, gan osod y safon yn ei ddosbarth.

### National Energy Action

Mae elusen tlodi tanwydd National Energy Action yn gweithredu ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cynigiwn gyngor a chymorth i aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn ogystal ag eirioli am bolisi a rheoleiddio i ddiogelu'r aelwydydd mwyaf bregus. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff rheng-flaen sefydliadau eraill fel y gallant roi'r cymorth gorau i aelwydydd mewn tlodi tanwydd.

#CRConf24

# CYNHADLEDD 2024

## Arddangoswyr

### Nyth

Mae cynllun Nyth Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor a chymorth diduedd yn rhad ac am ddim i bob aelwyd yng Nghymru. Os yw cwsmer yn gymwys, mae Nyth hefyd yn cynnig gwelliannau effeithiolrwydd ynni cartref am ddim i helpu gostwng biliau ynni a gwella iechyd a llesiant, tebyg i insiwleiddiad, pwmp gwres, paneli solar neu wres canolog.

### Sarabec

Mae Sarabec yn darparu ystod eang o offer i helpu pobl sydd â cholled clyw. Mae cynnyrch yn cynnwys gwrandawyr teledu, teleffonau sŵn uwch, systemau rhybudd ar gyfer synwyryddion mwg, larymau drws fflachio uchel iawn a gwrandawyr personol i helpu clywed sgwrs. Rydym yn gwerthu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, elusennau synhwyraidd a'r cyhoedd.

### Solon

Caiff Solon ei gydnabod fel prif gyflenwr y Deyrnas Unedig o gynnyrch diogelwch cymunedol. Ar ôl gweithio gydag amrywiaeth o gynghorau, cymdeithasau tai a darparwyr gofal am bron 30 mlynedd, defnyddiwn yr ymgyfraniad hwn i gyflenwi datrysiadau sy'n arwain y farchnad.

### Stannah Lifts

Mae Stannah yn fusnes teuluol a fu'n gwneud lifftiau grisiau ers 1975 ac mae wedi gwerthu bron filiwn ohonynt yn fyd-eang. Gweithiwn gyda miloedd o gwsmeriaid ym Mhrydain yn defnyddio ein tair ffatri, 11 cangen gwasanaeth, 9 depo gosod a'n timau o beirianwyr medrus ac ymgynghorwyr gwerthu. Gweithiwn gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn diwallu angen eu cwsmeriaid am gynnyrch dibynadwy, ansawdd uchel a diogel, sy'n eu galluogi i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

#CRConf24

# CYNHADLEDD 2024

## Arddangoswyr

### TACT (Trusted Assessing and Care Training)

Mae TACT yn bractis therapi galwedigaethol sy'n arbenigo mewn hyfforddiant a rhaglenni i gefnogi asesu ar gyfer addasiadau cartref. Fel darparydd gydag achrediad ar gyfer hyfforddiant Asesydd Dibynadwy, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau mewn ystod o fformatau yn cynnwys y cymwysterau cenedlaethol ar lefelau Asesydd Dibynadwy ar lefelau tri a phedwar.

### Wales & West Utilities

Rydym yn dosbarthu nwy i gartrefi a busnesau ar y brif rwydwaith nwy, gan gynnig cymorth i bobl mewn sefyllfaoedd bregus sy'n  dioddef colli cyflenwad nwy. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth argyfwng  nwy 24/7 365 diwrnod y flwyddyn ar gyfer pobl sy'n arogli nwy neu sy'n amau bod carbon monocsid yn cael ei ryddhau. Cynigiwn osod falf clo ffwrn nwy am ddim ar gyfer ffyrnau sydd â phibelli addas i gefnogi'r rhai sy'n gofalu am bobl gyda dementia.

### Warm Wales Cymru Gynnes

Mae Warm Wales Cymru Gynnes yn ymroddedig i liniaru tlodi yng Nghymru a De Orllewin Lloegr drwy amrywiaeth o brosiectau a phartneriaethau. Cynigiwn amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi preswylwyr, yn cynnwys gwelliannau effeithiolrwydd ynni, help gyda biliau ynni, mesuryddion deallus a disgowntiau, yn ogystal â gostwng tariffau dŵr ac uwchraddio systemau gwresogi. Mae ein gwaith yn ymestyn i uchafu incwm, sesiynau ymwybyddiaeth ynni, cofrestru gwasanaethau blaenoriaeth a mesurau diogelwch cartrefi, oll gyda'r nod o gynyddu ansawdd aelwydydd bregus.

### Terry Lifts

Lifftiau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn mewn adeiladau mynediad domestig a chyhoeddus.

#CRConf24